**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1178
Ein cyf JMEWL/10796/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Government.Committee.Business@llyw.cymru

8 Awst 2021

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf ynghylch Deiseb P-06-1178 (Prydau ysgol am ddim i bob disgybl yng Nghymru)

Mae darparu prydau ysgol am ddim yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y dysgwyr mwyaf anghenus yn parhau i elwa ar y ddarpariaeth hon. Mae'n Rhaglen Llywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i barhau i adolygu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, er mwyn estyn yr hawl cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu. Ers dechrau'r pandemig, mae nifer y ddysgwyr sy'n derbyn prydiau ysgol am ddim wedi cynyddu'n gyson.

Mae data diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2021 yn dangos bod 108,203 o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Dyma gynnydd o bron 18,000 o ddisgyblion ers i ddata CYBLD 2020 ddangos bod 90,662 o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae'r cynnydd hwn yn pwysleisio'r angen i adolygu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cael prydau ysgol am ddim. Rwy'n falch iawn o ddweud ein bod, erbyn hyn, wedi dechrau ar y gwaith o gasglu data, a gosod strwythur a chwmpas i'r adolygiad, sy'n cynnwys rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymchwil a'r dystiolaeth, fel yr ymchwil a gomisiynwyd gan Sefydliad Bevan a Chynghrair Gwrthdlodi Cymru. Bydd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys teuluoedd tlawd, heb unrhyw hawl i gronfeydd cyhoeddus.

Ar ôl dychwelyd ym mis Medi, byddaf yn darparu diweddariad ar gynnydd yr adolygiad, yn ogystal ag amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.